

Mathern & St. Pierre

Battles, Boats and Bunkers

Brwydau, Badau a Bynceri



An easy Circular walk of about 4.5 km (3 miles) through fields, country lanes, and St. Pierre Golf and Country Club. Please be aware of flying golf balls.

Start: Millers Arms, Mathern (ST 521915).

The Millers Arms is situated on the main road through Mathern, once called Old Dock Road because it started at the dock at St Pierre Pill, on the edge of the River Severn. It ran to Monmouth via the New Inn on the A48 and Shirenewton and was an important distribution



Dyma daith gerdded gylchol hawdd oddeutu 4.5 km (3 milltir) o hyd trwy gaeau, lonydd cefn gwlad a Chlwb Golff St Pierre. Byddwch yn ofalus – efallai bydd peli golff yn hedfan drwy'r awyr.

Cychwyn: Millers Arms, Matharn (ST 521915).

Saif y Millers Arms ar y brif ffordd trwy Matharn. Yr enw Saesneg ar y ffordd ar un adeg oedd Old Dock Road oherwydd ei bod yn cychwyn ym mhorthladd St Pierre Pill, ar lan Afon Hafren. Roedd yn mynd i Drefynwy trwy New Inn ar yr A48 a Drenewydd Gelli-farch ac roedd yn llwybr dosbarthu

route inland for all kinds of cargo, brought by boat to the Pill from England and overseas.

Cross the road, turn left and about 100 metres after the bridge, is St. Tewdric's Well, where King Tewdric died c. 470 AD and was buried nearby. According to legend, he was wounded in a battle against the Saxons near Tintern and brought to this spot in a cart drawn by two stags. The Well is said never to freeze so was an important water supply for livestock in winter.

Now turn around and retrace your steps for about 25 metres and turn left up the road that leads to the driveway to Moynes Court, an Elizabethan manor, which was once the home of Bishop Godwin (1562-1633). He was one of the first religious leaders to accept the theory of Copernicus that the Earth revolved around the Sun, rather than vice versa. It is now a private property. To the left of Moynes Court is an ancient tithe barn built around 1600 and now a private house.

pwysig ar gyfer llwythi o bob math, a oedd yn cyrraedd y Pill ar gychod o Loegr ac o dramor.

Croeswch y ffordd, a throi i'r chwith. Tua 100 metr ar ôl y bont mae Ffynnon Sant Tewdrig, lle bu farw'r Brenin Tewdrig tua 470 OC ac fe'i claddwyd gerllaw. Yn ôl y chwedl, fe'i hanafwyd mewn brwydr yn erbyn y Sacsoniaid ger Tyndyrn a daethpwyd ag ef i'r llecyn hwn mewn cart wedi'i dynnu gan ddau garw. Nid yw'r ffynnon byth yn rhewi ac felly roedd yn gyflenwad dŵr pwysig i'r anifeiliaid yn y gaeaf.

Trowch yn ôl a dilyn yr un llwybr am tua 25 metr ac yna troi i'r chwith i fyny'r ffordd sy'n arwain at rodfa Moynes Court, maenordy o oes Elisabeth, a oedd, ar un adeg, yn gartref i'r Esgob Godwin (1562-1633). Ef oedd un o'r arweinwyr crefyddol cyntaf i dderbyn damcaniaeth Copernicus bod y Ddaear yn troi o amgylch yr Haul, yn hytrach nag i'r gwrthwyneb. Mae'n eiddo preifat erbyn hyn. I'r chwith o Moynes Court mae ysgubor ddegwm a adeiladwyd oddeutu 1600 ond sydd bellach yn dŷ preifat.

About 200 metres along the driveway turn left through a gate into a field. Cross the field (formerly know as Old Berries) and pass through a gate. To the left of the gate is a stone commemorating the coronation of King George VI in 1937. The adjacent trees were planted at the same time. Now bear slightly right aiming for a gate at the far corner of the field. You may catch a glimpse through the trees of both Moynes Court and the tithe barn.

Go through the gate and walk across the field to the far corner. Go through a gate and over the bridge on to the golf course. Turn left and keep close to the edge until, after about 150 metres, you turn left across a narrow bridge. Do not go across the wide wooden bridge to your right which is part of the golf course. Immediately after the bridge go through a gate and turn right to cross a wide concrete bridge and head for the left of Pill Cottage (formerly the Customs House at St Pierre Pill) about 200 metres away. As you approach the cottage there is a good view of the Second Severn

Oddeutu 200 metr ar hyd y rhodfa, trowch i'r chwith trwy gât i mewn i gae. Cerddwch ar draws y cae (Old Berries gynt) a mynd trwy'r gât. I'r chwith o'r gât y mae carreg sy'n coffáu coroni'r Brenin George VI ym 1937. Plannwyd y coed cyfagos yr un pryd. Ewch ychydig i'r dde tuag at gât yng nghornel bellaf y cae. Efallai y bydd modd i chi gael cip o Moynes Court a'r ysgubor ddegwm trwy'r coed.

Ewch trwy'r gât a cherddwch ar draws y cae i'r gornel bellaf. Ewch trwy'r gât a thros y bont i'r cwrs golff. Trowch i'r chwith a chadw at ymyl y cwrs golff. Ar ôl tua 150 metr, trowch i'r chwith ar draws pont gul. Peidiwch â



Crossing, which opened in 1996. Go all the way round the property, ignoring a redundant stile on your right, until you come to a kissing gate which leads on to a tarmac drive.

Go through the gate and continue along a tarmac path until you come to a car park. To the left of the car park was the St Pierre Pill dock where coal, probably from the Forest of Dean, was unloaded to be transported inland. This important mediaeval harbour was navigable by 70 ton barges until as late as 1860, but is now silted up. It is hard to imagine now that large boats would have come this far inland.

chroesi'r bont bren lydan sydd ar yr ochr dde ac sy'n rhan o'r cwrs golff. Yn syth ar ôl y bont ewch trwy gât a throi i'r dde a chroesi pont goncrit lydan ac ewch tuag at ochr chwith Pill Cottage (Tollty yn St Pierre Pill gynt) tua 200 metr i ffwrdd. Wrth i chi gyrraedd y bwthyn, mae golygfa dda o Ail Groesfan yr Hafren, a agorwyd ym 1996. Ewch yr holl ffordd o amgylch yr eiddo, gan anwybyddu'r gamfa ar y dde tan i chi ddod at gât mochyn sy'n arwain at rodfa darmac.

Ewch trwy'r gât a pharhau ar hyd y llwybr tarmac tan i chi ddod at faes parcio. I'r chwith o'r maes parcio roedd porthladd St Pierre Pill, lle roedd glo, o Fforest y Ddena yn ôl pob tebyg, yn cael ei ddadlwytho i'w gludo dros y tir. Roedd y porthladd canoloesol pwysig hwn yn cael ei ddefnyddio gan ysgraffau 70 tonn mor ddiweddar â 1860, ond erbyn hyn mae'n llawn silt. Mae'n anodd dychmygu heddiw bod cychod mawr wedi teithio cyn belled â hyn o'r môr.

Bear left across the car park, turn right at the corner of the buildings, and pass the entrance to the Leisure Club and hotel on your right. Now look for an old metal gate on your right that leads into the graveyard of St. Pierre Church. This has both Norman and Saxon features and was dedicated to St Pierre de Caen by Norman knights after the Norman Conquest in 1066. The doorway dates back to the mid 13th century and a stone coffin lid inside is that of the first Norman Lord, Urien, who died in 1295.

Carry on through the churchyard to the main entrance to the hotel which is found within the



Mae angen i chi gadw i'r chwith ar draws y maes parcio, a throi i'r dde wrth gornel yr adeiladau, a mynd heibio mynedfa'r Clwb Hamdden a'r gwesty ar y dde i chi. Chwiliwch am hen gât fetel ar y dde sy'n arwain at fynwent Eglwys St Pierre a'i nodweddion Normanaidd a Sacsonaidd. Enwyd yr eglwys ar ôl St Pierre de Caen gan farchogion Normanaidd ar ôl y Goncwest Normanaidd ym 1066. Mae'r porth yn dyddio'n ôl i ganol y drydedd ganrif ar ddeg a thu mewn mae caead arch garreg Urien, yr Arglwydd Normanaidd cyntaf, a fu farw ym 1295.

Ewch yn eich blaen trwy'r fynwent tuag at brif fynedfa'r gwesty yn yr iard. Adeiladwyd y tŷ gan William Lewis ym 1475 ac arhosodd y tŷ yn nwylo'r teulu Lewis tan tua 1910. Agorodd y cwrs golff cyntaf yma ym 1962. Yn 2008, daethpwyd o hyd i weddillion byncer cudd o'r Ail Ryfel Byd ar y cwrs. Byddai wedi cael ei ddefnyddio i drosglwyddo gwybodaeth radio ac fel pencadlys y fyddin gël pe bai'r gelyn wedi glanio.

courtyard. The house was built by William Lewis in 1475 and remained in the Lewis family until about 1910. The first golf course opened here in 1962. In 2008, the remains of a secret World War II bunker were discovered on the course. Its purpose was to transmit radio information and act as a headquarters for resistance fighters in the event of enemy invasion.

With your back to the hotel entrance, head for and go through the 16th century arched entrance to the courtyard and along the tarmac drive. Turn right onto the main driveway that you left a short time ago. After a very short distance, turn right to take the second tarmac path so that you now have the golf course on your left and a small wood on your right. Carry on this path until it turns sharp left. You, however, now leave the path and go half left, crossing part of the golf course and heading for the centre of a large wooden building, the Club's golf driving range. At the building, turn right and follow the tarmac path for a short way and when it goes off



Gyda'ch cefn tuag at fynedfa'r gwesty, ewch ymlaen trwy'r bwa o'r unfed ganrif ar bymtheg sy'n eich arwain i'r iard ac ar hyd y rhodfa darmac. Trowch i'r dde i'r brif rodfa y gwnaethoch ei gadael fymryn yn gynharach. Trowch i'r dde bron yn syth, a dilyn yr ail lwybr tarmac nes bod y cwrs golff ar y chwith i chi a choedwig fach ar y dde. Ewch yn eich blaen ar hyd y llwybr hwn tan ei fod yn troi i'r chwith yn sydyn. Rydych yn gadael y llwybr a throi tua'r chwith, gan groesi rhan o'r cwrs golff a thuag at ganol adeilad pren mawr, sef maes ymarfer golff y Clwb. Ger yr adeilad, trowch i'r dde a dilyn y llwybr tarmac am ychydig a phan mae'n gwyro i'r chwith, mae angen i chi barhau yn eich blaen (rydych yn ôl ar y cwrs golff) tan na allwch fynd



St Pierre, main entrance / Prif fynedfa St Pierre

to the left, carry straight on (you are back on the golf course) until you can go no further. Turn left and then right after about 100 metres and cross the wide bridge.

Cross the stile at the end of the bridge and go almost straight on across the field. Cross the stile and go diagonally right across this field to yet another stile. Cross this and turn left to follow the field boundary for about 200 metres, and then left over another stile, through the garden of a 300 year old cottage, Langstone Mead and through a wide gate on to Mill Lane.

Turn right and follow Mill Lane, passing Mathern Mill on your left: the Mill was the last of a dozen or so water-powered corn

ddim pellach. Trowch i'r chwith ac yna i'r dde ar ôl tua 100 metr a chroesi pont lydan.

Ewch dros y gamfa ar ddiwedd y bont a mynd yn syth ar draws y cae fwy neu lai. Ewch dros y gamfa a mynd ar draws y cae tua'r dde i'r gornel bellaf ac at gamfa arall. Ewch dros y gamfa a throi i'r chwith gan ddilyn ffin y cae am tua 200 metr, ac yna i'r chwith dros gamfa arall, trwy ardd Langstone Mead, bwthyn 300 oed, a thrwy gât lydan sy'n mynd â chi at Mill Lane.

Trowch i'r dde a dilyn Mill Lane, gan fynd heibio Melin Matharn ar eich ochr chwith: Y Felin oedd yr olaf o tua dwsin o felinau dŵr a oedd yn trin yd yn ardal Cas-gwent. Roedd yn cynhyrchu 200-300 sach o flawd bob wythnos ac roedd yn dal i gynhyrchu tan y 1960au. Os ydych yn troi i'r chwith ar ôl yr adeilad mae modd gweld gweddillion yr olwyn ddŵr o hyd. Ewch yn eich blaen ar hyd y lôn a lle mae'n troi'n sydyn i'r chwith, ewch trwy'r gât ar y tro i mewn i'r cae a dilyn ffin chwith y cae.

mills in the Chepstow area. It produced 200-300 sacks of flour a week and was working until the 1960s. If you turn left just past the building you can still see the remains of the water wheel. Continue along the lane and where it bends sharp left, go through the gate on the bend into the field and follow the left hand field boundary. This field was known as The Nedderns and about half way along it, there is a depression which is the remains of a boat slipway. The Severn came up to a small harbour here. This ceased to function in the early 1850s when it was sealed off to enable the railway line along the coast to be built by the great Victorian engineer Isambard Kingdom Brunel. A reminder of this is Applecross cottage opposite the Miller's Arms, which was once called the Ship Inn.

Turn left at a gate just after the Village Hall, go through the car park and then turn right onto the road through the village. After about 250 metres you will find yourself back at the Millers Arms.



Mathern Mill / Melin Matharn

Roedd y cae yn arfer cael ei alw'n The Nedderns a thua hanner ffordd ar draws y cae mae pant, sef olion llithrfa i gychod. Roedd porthladd bach ar Afon Hafren fan hyn. Ni chafodd ei ddefnyddio ar ôl dechrau'r 1850au. Dyma pryd y cafodd ei gau er mwyn i Isambard Kingdom Brunel, peiriannydd enwog yn Oes Victoria, adeiladu rheilffordd ar hyd yr arfordir. Mae Applecross, y bwthyn gyferbyn â'r Millers Arms yn atgof o'r gorffennol - y Ship Inn oedd ei enw.

Trowch i'r chwith ger y gât ar ôl Neuadd y Pentref, a mynd trwy'r maes parcio ac yna troi i'r dde i'r ffordd sy'n mynd trwy'r pentref. Ar ôl tua 250 metr, byddwch yn ôl yn y Millers Arms.



All of the footpaths should be signposted from tarmac roads and way-marked with yellow arrows at various stages along the footpath. If you follow the general direction of these you are unlikely to go wrong.

All distances are approximate.

Please remember the Countryside Code:

- Be safe – plan ahead and follow any signs
- Leave gates and property as you find them
- Protect plants and animals and take your litter home
- Keep dogs under close control
- Consider other people

Although the description may indicate a stile, ongoing improvements to the Public Rights of Way System may mean that these have been replaced by gates or kissing gates.

If you come across any problems such as blocked paths, damaged stiles or gates, or missing signposts or waymarks please report these to Community Council at matherncc@googlemail.com

Dylai fod arwyddion ar y ffyrdd tarmac i ddangos pob llwybr troed a dylech weld saethau melyn bob hyn a hyn ar hyd y llwybr troed. Os ydych yn dilyn yr arwyddion hyn, mae'n annhebygol y gwnewch chi goll'i'ch ffordd.

Amcangyfrifon yw'r pellteroedd.

Cofiwch y Cod Cefn Gwlad:

- Byddwch yn ddiogel – cynlluniwch o flaen llaw a dilynwch unrhyw arwyddion
- Gadewch gatiâu ac eiddo fel ag yr oeddent
- Sicrhewch fod planhigion ac anifeiliaid yn cael eu diogelu, ac ewch â'ch ysbwriel gartref
- Rhaid cadw eich cŵn dan reolaeth
- Rhowch ystyriaeth i bobl eraill

Er bod y disgrifiad yn nodi camfa, gall gwelliannau parhaus i'r system Hawliau Tramwy Cyhoeddus olygu mai gât neu gât mochyn sydd yno bellach.

Os ydych yn dod ar draws unrhyw broblemau fel rhwystrau ar lwybrau, camfeydd a gatiâu wedi'u difrodi, neu arwyddbyst neu arwyddion coll, a fyddech crystal â rhoi gwybod i'r Cyngor Cymuned yn matherncc@googlemail.com

For details of accommodation in the area visit:
Am fanylion lleety yn y ardal ewch i:

www.visitwyievalley.com

This leaflet has been funded by adventa, Monmouthshire's rural development programme funded by the European Agricultural Fund for Rural Development, the Welsh Assembly Government and Monmouthshire County Council. For more information visit

www.adventa.org.uk.

The content has been provided by Mathern Community Council.

Whilst every effort is made to ensure accuracy, adventa cannot accept any liability whatsoever for any loss or damage arising in any way from this publication. Nor can they be held liable for any loss, injury or damage sustained by anyone visiting or walking the trail.

Mae'r daflen hon wedi ei hariannu gan adventa, rhaglen datblygu gwledig Sir Fynwy, a noddir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Sir Fynwy. Am fwy o wybodaeth ewch i **www.adventa.org.uk**. Darparwyd y cynnwys gan Gyngor Cymuned Matharn.

Tra gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb, ni all adventa dderbyn unrhyw gyfrifoldeb o gwbl am unrhyw golled neu niweld sy'n deillio mewn unrhyw ffordd o'r cyhoeddiad hwn. Ni allwn chwaith fod yn atebol am golled, anaf neu niweld sy'n digwydd i unrhyw un sy'n ymweld neu'n cerdded ar y llwybr.

The use of public transport is encouraged along this route.

The **Veolia bus number 73** from Chepstow or Newport conveniently stops on the A48 on the edge of the Village.

For bus times please refer to
www.traveline-cymru.info or **0871 200 22 33**

Anogir pobl i ddefnyddio cludiant cyhoeddus i gyrraedd y llwybr hwn. Mae **bws rhif 73 Veolia** o Gas-gwent neu Gasnewydd yn gyfleus ac yn stopio ar yr A48 ar gyrion pentref Matharn.

I gael amserau'r bws ewch i
www.traveline-cymru.info neu ffoniwch **0871 200 22 33**

Mae'r daflen hon wedi ei hargraffu ar stoc CSC / This leaflet is printed on FSC stock



Cranfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig; Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development; Europe Investing in Rural Areas

